# Taflen Freud AA1

## Teitl y Traethawd:

## Archwiliwch sut wnaeth Freud ddadlau bod cred grefyddol yn gynnyrch y meddwl dynol.

**Crynodeb â phwyntiau bwled**

- Ystyriai bod crefydd yn niwrosis cyfunol.
- Mae crefydd yn fynegiant allanol o wrthdaro seicolegol mewnol.
- Byddai pob llu yn cael ei reoli gan wryw cenfigennus, a fyddai'n cipio'r menywod a gyrru ei holl gystadleuwyr i ffwrdd.
- Yn 1913 ysgrifennodd Freud 'Totem and Taboo', ble ceisiodd egluro tarddiad crefydd mewn bodau dynol.
- Cymharodd Freud ymddygiad cleifion a ddioddefai o niwrosis ag ymddygiad crefyddol.
- Fel arfer anifail oedd y totem, a byddai'n dod i gael ei addoli.
- Byddai pob cenhedlaeth yn etifeddu'r euogrwydd a achoswyd wrth ladd y tad neu fagu meddyliau am wneud hynny.
- Daeth y gwrywod ifanc at ei gilydd a lladd y tad llywodraethol. Ar ôl y digwyddiad. roeddent yn teimlo'n euog.
- Disodlwyd y tad gan dotem.
- Gellid egluro cymhleth y Tad hefyd fel y Cymhleth Oedipws.
- Ymddygiad hysterig yn debyg i addoli.
- Ffobiâu a gofidion yn debyg i ofni cael eich barnu.
- Ymddygiad obsesiynol yn debyg i ddefodau crefyddol.
- Breuddwydion yn dangos dymuniadau wedi'u mygu.
- Mae ataliad yn egluro ymddygiad niwrotig sydd wedyn yn cael ei fynegi drwy gredu mewn crefydd a'i harferion.
- Mae crefydd yn seiliedig ar gyflawni dyheadau yr anymwybod dynol.
- Mae ffigur tad ac awdurdod yn ein helpu i ddelio â'n hofnau a'n hymdeimlad o ddiymadferthedd.

**Dyfyniadau**

- "Nid yw crefydd yn ddim mwy na seicoleg sy'n cael ei hallanoli i'r byd allanol." (Freud)
- "Yn seicolegol, nid yw Duw personol yn ddim mwy na thad dyrchafedig." (Freud)
- "O safbwynt biolegol, gellir olrhain crefyddoldeb i ddiymadferthedd hirfaith y plentyn bach dynol a'i angen am help...yn ddiweddarach...pan fydd yn wynebu grymoedd mawr bywyd...mae'n atchwelyd at y grym a amddiffynnodd ei blentyndod." (Freud)
- "Mae'r 'hiraeth am y tad' yn ffurfio gwreiddyn pob ffurf ar grefydd." (Freud)
- "Roedd crefydd yn ymgais i gael rheolaeth dros y byd synhwyraidd ble rydym wedi ein gosod, trwy'r byd dyheadau yr ydym wedi ei ddatblygu y tu mewn i ni o ganlyniad i

angenrheidiau biolegol a seicolegol." (Freud)

- "Crefydd yw niwrosis obsesiynol cyffredinol y ddynoliaeth." (Freud)
- "Rydym yn cydnabod bod gwreiddiau'r angen am grefydd o fewn y cymhleth rhieni." (Freud)
- Mae dogmâu crefyddol yn rhithiau, "cyflawniadau dyheadau hynaf, cryfaf a mwyaf taer y ddynolryw." (Freud)
- "Mae'r bywyd crefyddol yn cynrychioli dramateiddiad ar lefel gosmig o ran yr emosiynau, ofnau a hiraeth a ymgododd yn ystod perthynas y plentyn â'i rieni." (Ernest Jones)